

Rhestr wirio i benderfynu a oes angen Asesiad Rhagarweiniol ar gyfer Rhywogaethau a Warchodir

C Rhif.	Cwestiwn	Bydd	Na fydd
1	A fydd y cynnig yn cynnwys dymchwel unrhyw adeiladau neu strwythurau e.e. annedd presennol, penty, allandy, sied ayyb?		
2	A fydd y cynnig yn cynnwys trosi unrhyw adeilad heblaw am annedd e.e. ysgubor, amaethyddol (neu fel arall) adeilad allan, neu gapel?		
3	A fydd y cynnig yn cynnwys trosi neu golli gwagle to, neu ran o hynny?		
4	A fydd y cynnig ei hun (neu'r gwaith cysylltiedig) yn effeithio un ai dros dro neu yn barhaol ar wagle to presennol neu yn rhwystr i neu yn atal pwyntiau mynediad dichonol ar gyfer ystlumod? Fe all hyn gynnwys estyniad unllawr ar adeilad unllawr neu estyniad deulawr ar adeilad deulawr, lle mae'r estyniad yn ffitio i mewn i'r to presennol a / neu a all rwystro neu atal pwyntiau mynediad ar gyfer ystlumod e.e. ceudyllau y tu ôl i esgyll tywydd, ar dalcenni neu yn y bondoeau.		
5	A fydd y cynnig yn cynnwys gwaith ail-doi neu symud / addasu / aflonyddu / ar strwythur to gan gynnwys goleuadau to neu ffenestri crom a gwaith ar simneiau?		
6	A fydd y cynnig yn cynnwys gosod paneli heulol (ffoto ffoltaig), tyrbinau gwynt wedi eu gosod ar dalcenni, neu ynysu mewn waliau allanol?		
7	A fydd y cynnig yn cynnwys unrhyw waith ar safle neu strwythur o dan ddaear e.e. selar, chwarel, ceuffordd, twnnel, dwythell, strwythur pont, neu chwarel ayyb?		
8	A fydd y cynnig yn cynnwys unrhyw waith ar (neu ddymchwel) coed aeddfed e.e. coed sydd ag unrhyw botensial i gefnogi ystlumod neu dylluanod gwyn sy'n bridio e.e. coed gyda cheudyllau ayyb neu symud nodweddion llinellol fel gwrychoedd, rhubanau coed a sribedi coedlannol?		
9	A ydych chi'n ymwybodol os yw unrhyw ystlumod neu dylluanod gwyn wedi cael eu canfod mewn perthynas â, neu wedi cael eu gweld yn ymddangos o, unrhyw adeiladau, strwythurau neu goed a effeithir gan y cynnig neu a ydych yn ymwybodol bod tystiolaeth o'u presenoldeb e.e. baw ystlumod, pelenni tylluanod gwyn ayyb?		
10	A oes yna unrhyw gofnodion cyfredol / hanesyddol o glwydi ystlumod neu dylluanod gwyn yn gysylltiedig gydag unrhyw adeilad, strwythur, neu goeden ar y safle?		

Bydd ymateb sy'n dweud 'Bydd neu Oes' mewn ymateb i unrhyw un (neu fwy) o'r cwestiynau wedi eu rhifo o 1-10 uchod fel rheol yn sbarduno gofyniad gan yr Awdurdod hwn am Asesiad Rhagarweiniol ar gyfer Rhywogaethau a Warchodir (ARhWRh).

Datblygwyd y rhestr wirio hon yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a gafwyd o brofiad ymarferol ac ecolegol wrth ymdrin â rhywogaethau a warchodir trwy gyfrwng y broses cynllunio yn Eryri.